**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Panel Craffu Perfformiad – Addysg

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 18 Ionawr 2024 am 4.30pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Cynghorydd(wyr)** | **Cynghorydd(wyr)** | **Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A Davis | A M Day | B Hopkins |
| Y V Jardine | S M Jones | S Joy |
| F D O'Brien | A J O'Connor | |

**Aelod(au) Cyfetholedig**
Beth Allender

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Robert Smith | Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu |
| David Bradley | Swyddog Cyswllt Partneriaeth |

| **Ysgol** | **Pennaeth** | **Cadeirydd y Llywodraethwyr** |
|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Tre-gŵyr | Kath Lawlor | Morrison Frew |
| Ysgol Gynradd Tre-gŵyr | Iain Ashton | Susan Jones |
| Ysgol Gynradd Llanrhidian | Donna Caswell | |
| Ysgol Gynradd Penclawdd | Louisa Reynolds-Milnes | |
| Ysgol Gynradd Pen-y-Fro | Rachel Lewis | |
| Ysgol Gynradd Waunarlwydd | Jamie Evans | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |
| David Thomas | Prif Ymgynghorydd Gwella Ysgolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J D McGettrick.
Aelod(au) Cyfetholedig: Elizabeth Lee

---

115 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd y Cyng. S M Jones a'r Cyng. B Hopkins gysylltiad personol.

116 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

117 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 gan y Panel.

115 **Llythyr(au)**

Nodwyd y llythyr a anfonwyd at Aelod y Cabinet yn dilyn cyfarfodydd y Panel ar 23 Tachwedd 2023 ac 14 Rhagfyr 2023.

116 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

117 **Gweithio mewn Clwstwr - Cwricwlwm i Gymru**

Croesawodd y Panel Dave Bradley, sef y swyddog cyswllt Partneriaeth ar gyfer y clwstwr. Rhoddodd drosolwg o'r gefnogaeth a roddwyd i'r clwstwr ac yna amlinellodd y cynnydd. Dywedodd fod Partneriaeth Gogledd Gŵyr yn bartneriaeth gref, a chanddi hanes hir o weithio mewn partneriaeth hyd yn oed cyn i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno. Maent wedi bod yn gwneud cynnydd da iawn wrth ei gyflwyno. Mae Partneriaeth yn gweithio mewn partneriaeth â nhw fel cydraddolion oherwydd mae Partneriaeth yn elwa o'r berthynas a'r dysgu yn yr un modd â'r ysgolion.

Croesawodd y Panel Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr o Bartneriaeth Gogledd Gŵyr. Anfonodd y Panel gyfres o gwestiynau atynt cyn y cyfarfod, a oedd yn ymwneud â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a darparodd Partneriaeth gyflwyniad a oedd yn amlinellu gwaith y bartneriaeth ac yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hynny. Roedd hyn yn cynnwys:

a) Sut mae'n mynd hyd yn hyn?
b) Beth sydd fwyaf heriol?
c) Sut ydych chi'n cefnogi'ch athrawon a staff eich ysgol wrth newid i'r cwricwlwm newydd?
d) Sut ydych chi'n gweithio gyda'ch gilydd fel clwstwr i sicrhau ymagwedd gyson?
e) Sut ydych chi'n gwybod pa mor effeithiol yr ydych yn rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yng nghlwstwr Tre-gŵyr?
f) Sut ydych chi'n mynd â dysgwyr gyda chi ar y daith hon?
Sut mae gwybodaeth am y cwricwlwm yn cael ei rhannu â'r dysgwyr? Sut mae'r dysgwyr yn ymateb i'r cwricwlwm , yn enwedig y rheini sydd wedi cael profiad o'r ddwy system?
g) Sut rydych chi'n teimlo am y gefnogaeth rydych chi wedi'i derbyn gan yr awdurdod lleol a Partneriaeth?

Roedd y cyflwyniad gan y bartneriaeth yn rhoi trosolwg o gynnydd, gan gynnwys,

- Sut mae'r bartneriaeth yn edrych ar gysondeb yr egwyddor yn hytrach nag arfer.
- Cyfansoddiad y bartneriaeth gan gynnwys yr ysgolion sy'n ymgysylltu â hi, nifer y disgyblion etc.
- Hanes y bartneriaeth

- Edrychwyd ar y canlynol: argymhellion allweddol Dyfodol Llwyddiannus, y 12 Egwyddor Addysgeg.
- Mae gan y clwstwr tri phennaeth diweddar sy'n arwain ar ddysgu
- Cyflwyno agwedd gadarnhaol, brandio 'Kanga y cangarŵ' ar draws y clwstwr, gan ddangos ymagwedd gyson.
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol a Partneriaeth
- Cynnydd y Siarter Iaith
- Cynllun cynnydd a datblygiad Partneriaeth Gogledd Gŵyr, a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol
- Datblygu gwefan Partneriaeth Gogledd Gŵyr a'i chynnwys
- Y defnydd cyson o egwyddorion a pholisïau yr ymchwiliwyd iddynt ar draws y bartneriaeth, gan gynnwys Llawlyfr Diogelu a Pholisi Presenoldeb.
- Cefnogi staff ar draws y clwstwr gan ddefnyddio'r egwyddorion a'r polisïau hynny

Gofynnodd y Panel y canlynol yn ystod y cyfarfod hefyd:
- Beth yw'r lefelau amddifadedd ar draws ardal y clwstwr?
- Sut mae'r clwstwr yn ariannu Partneriaeth Gogledd Gŵyr ac adnoddau eraill a ddefnyddir, oes cyllideb gyffredinol neu gyllideb a rennir?
- Beth yw'r ffactorau allweddol ar gyfer eich llwyddiant fel clwstwr yn eich barn chi, o ran bwrw ymlaen â'r Cwricwlwm i Gymru?
- Pa gyfleoedd ar gyfer dysgu a ddefnyddir?
- Y defnydd o gysondeb o ran 'Kanga' a pholisïau etc. - ydy hyn yn helpu disgyblion wrth iddynt bontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn y clwstwr?
- Beth yw'r cyfraddau presenoldeb, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd?

Bydd crynodeb o farn y Panel am y cynnydd a wnaed a'r ymatebion i'r cwestiynau hynny a ofynnwyd yn rhan o'r llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn y cyfarfod.

118 **Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024**

Nodwyd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50pm

**Cadeirydd**